

# Popeth yn cyfrannu

*“Ond os tywelltir fy mywyd i yn ddiodoffrwm ac yn aberth er mwyn eich ffydd chwi, yr wyf yn llawen, ac yn cydlawenhau â chwi i gyd. Yn yr un modd byddwch chwithau’n llawen.” (adn. 17–18)*

## Beth am ddarlflen Philipiaid 2:12–30 ac yna myfyrio

Ddoe, bu inni gyffwrdd â dioddefaint gan nodi fod doethineb yn mynnu fod dioddefaint yma i aros. Wrth inni gydnabod hynny, gallwn ddechrau delio ag ef.

Yn *The Screwtape Letters* gan C. S. Lewis, fe geir cyngor gan un o’r diawliaid hŷn i un o’r rhai iau, ac fe restrir nifer o resymau pam ei bod yn anodd dyfalbarhau. Yn eu plith mae pethau fel euogrywydd, gobeithion ieuencid yn araf ddiflannu, hen arferion, diddordebau bydol, anawsterau gyda’r gwyrthiol, amheuaeth, a gofynion Duw yn anghyfleus. Dyma’r materion y mae’r diafol hŷn yn cynghori ei brentis i’w defnyddio wrth geisio temtio pobl i bechu. Yn ôl y cyngor, dyma lle y mae gwendidau pobl, a dylid cymryd mantais o’r pethau hyn er mwyn arwain pobl ar gyfeiliorn.

Ond, yn ôl yr un cyngor, does yna ddim diben o gwbl mynd ar ôl y cwestiwn o ddioddefaint. Dyma’r geiriau y mae C. S. Lewis yn eu rhoi yng ngenau y diafol hŷn: “Y mae pobl y Gelyn wedi cael clywed yn glir ganddo fod dioddefaint yn rhan allweddol o’r hyn y mae’n ei alw yn iachawdwriaeth. Wrth gwrs, ar yr eiliad pan ddaw anhawster neu brofedigaeth neu boen corfforol, efallai y medri ddal dyn pan fo ei reswm wedi ei osod o’r neilltu am eiliad, ond hyd yn oed yn yr eiliadau hyn, os yw yn galw ar bencadlys y Gelyn, rwy’n darganfod ei fod yn cael ei amddiffyn bob amser.”

Unwaith y down i delerau â’r ffaith fod dioddefaint yn rhan o’n bywyd yn y byd syrthiedig yma, yna gallwn godi uwchlaw cael ein temtio ganddo. Mae’n colli ei afael arnom. Does na’r un dioddefaint na ellir ei feddiannu a’i ddefnyddio. Mae derbyn hyn yn un o’r pethau sydd yn siŵr o’n diogelu rhag gwrthgiliad. Gall popeth gyfrannu, hyd yn oed dioddefaint.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Actau 5:29–42; 16:16–40

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut oedd hi’n bosibl i’r apostol lawenhau mewn poen?
2. Beth oedd y canlyniad?

## Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, fe ddefnyddiaist ti y poen eithaf, poen y groes, i ddwyn iachawdwriaeth. Cynorthwya fi, wrth i mi ddiodef mewn ffordd lai o lawer, i ddefnyddio fy nioedfiadau er daioni i’r henaid. Er mwyn dy enw di. Amen.